Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2022 Rhif 132 (Cy. 42)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Ceisiadau am Gymorth Llaeth a Chynhyrchion Llaeth (Disgyblion mewn Sefydliadau Addysgol) (Cymru) 2022

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan y pŵer sydd wedi ei gynnwys yn Erthygl 25(b) o Reoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu cyd-drefniadaeth y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol ("y Rheoliad CMO"), fel y'i darllenir gydag Erthygl 3(5)(c)(i)(bb) o'r Rheoliad hwnnw. Maent yn gymwys yng Nghymru yn unig.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Erthyglau 4 a 9 o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2017/39. Maent yn diwygio darpariaethau sy'n ymwneud â thystiolaeth ddogfennol sy'n ategu ceisiadau am gymorth o dan y cynllun a sefydlwyd gan Erthyglau 22 i 25 o'r Rheoliad CMO. O ganlyniad i'r diwygiadau hyn, rhaid nad yw ymgeiswyr ond yn dal y dystiolaeth ddogfennol honno sydd ar gael i'r awdurdod perthnasol. Yn flaenorol, roedd rhaid iddynt gyflwyno tystiolaeth ddogfennol ategol gyda'r cais am gymorth.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2022 Rhif 132 (Cy. 42)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Ceisiadau am Gymorth Llaeth a Chynhyrchion Llaeth (Disgyblion mewn Sefydliadau Addysgol) (Cymru) 2022

Gwnaed *10 Chwefror 2022*

Gosodwyd gerbron Senedd Cymru *15 Chwefror 2022*

Yn dod i rym *9 Mawrth 2022*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pŵer a roddir gan Erthygl 25(b) o Reoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu cyd-drefniadaeth y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol(**1**), fel y'i darllenir gydag Erthygl 3(5)(c)(i)(bb) o'r Rheoliad hwnnw(**2**).

Cynhaliwyd ymgynghoriad fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ceisiadau am Gymorth Llaeth a Chynhyrchion Llaeth (Disgyblion mewn Sefydliadau Addysgol) (Cymru) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 9 Mawrth 2022.

(**1**) EUR 2013/1308. Diwygiwyd Erthygl 25 gan O.S. 2019/831. Diffinir "appropriate authority" yn Erthygl 3(5)(c). Mewnosodwyd y diffiniad o "appropriate authority" gan O.S. 2019/821, ac fe'i diwygiwyd wedi hynny gan O.S. 2019/1422.

(**2**) Mae Erthygl 3(5)(c)(i)(bb) yn diffinio Gweinidogion Cymru fel yr "appropriate authority" o ran Cymru.

(**3**) EUR 2002/178. Nid oes diwygiadau perthnasol.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2017/39 o ran Cymru

2.—(1) Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2017/39 ar reolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran cymorth Undeb ar gyfer cyflenwi ffrwythau a llysiau, bananas a llaeth mewn sefydliadau addysgol(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Erthygl 4(**2**), ym mharagraff 6—

(a) ar ôl "evidence" yn y lle cyntaf y mae'n ymddangos, mewnosoder "held available for the relevant authority",

(b) hepgorer y geiriau o "The relevant authority shall specify" hyd at "aid applications."

(3) Yn Erthygl 9(**3**), hepgorer paragraff 2.

Jeremy Miles
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru
10 Chwefror 2022

(**1**) EUR 2017/39. Diwygiwyd Erthyglau 4 a 9 gan O.S. 2019/1422. Diffinir "relevant authority" yn Erthygl 1(3). Mewnosodwyd y diffiniad o "relevant authority" gan O.S. 2019/1422. Mae Erthygl 1(3)(a)(ii) yn diffinio Gweinidogion Cymru fel y "relevant authority" o ran Cymru.
(**2**) Diwygiwyd Erthygl 4 gan O.S. 2019/1422.
(**3**) Diwygiwyd Erthygl 9 gan O.S. 2019/1422.